**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1013
Ein cyf/Our ref DET/00203/21

Janet Finch-Saunders AS
Aelod o'r Senedd
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@gov.wales

12 Chwefror 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Ionawr ynghylch y Gronfa Gweithwyr Llawrydd ac unigolion hunangyflogedig yn y sector cerddoriaeth fyw.

Wrth ddatblygu'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd daeth yn amlwg bod diffyg data a thystiolaeth ynglŷn â maint, cyfansoddiad ac effaith economaidd y gymuned gweithwyr llawrydd yng Nghymru. Er gwaethaf yr her hon, drwy dri cham cyntaf y Gronfa Gweithwyr Llawrydd, gwnaethom gefnogi 3,584 o unigolion gydag £8.9 miliwn o gyllid.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gyda'r Awdurdodau Lleol i adolygu allbynnau'r cronfeydd sy'n cynnwys cynnal ymchwil ansoddol i'r holl ddata a gesglir drwy broses ymgeisio'r tri cham cyntaf, a hynny fel blaenoriaeth. Dyma fydd dechrau'r ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu sylfaen dystiolaeth a naratif cryfach ynghylch pwysigrwydd y gymuned gweithwyr llawrydd i economi Cymru.

Ar 10 Chwefror, cyhoeddwyd bod Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth pellach o £8.9 miliwn i'r gymuned gweithwyr llawrydd, sy'n cynnwys cylch newydd o gyllid cymorth gan y Gronfa Adferiad Diwylliannol a fydd yn golygu y bydd pob un o'r gweithwyr llawrydd a gefnogir eisoes yn cael £2,500 ychwanegol i'w cefnogi drwy'r cyfnod estynedig hwn o lai o weithgarwch. Mae rhagor o fanylion ar gael yn: https://llyw.cymru/89-miliwn-pellach-i-gefnogi-gweithwyr-llawrydd-y-sector-creadigol?_ga=2.97809501.37338191.1612801670-1688538354.1555322058


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism